Canllawiau ar drefniadau asesu wrth gefn ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy

Canllawiau ar drefniadau asesu wrth gefn ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy[1]

Cyhoeddwyd Rhagfyr 2022

Rhagair

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg i ganolfannau o'r gofynion pe bai Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniad annhebygol i ganslo cyfres arholiadau'r haf. Ni fwriedir i'r wybodaeth yn y ddogfen hon dynnu sylw oddi wrth baratoadau ar gyfer arholiadau yn yr haf.

O ystyried digwyddiadau'r ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym yn gwybod bod siawns fechan y gallai fod angen trefniadau amgen eto yn y dyfodol. Felly, dylai canolfannau baratoi ar gyfer y posibilrwydd o roi'r trefniadau wrth gefn ar waith drwy gynllunio pa asesiadau y byddant yn eu defnyddio i lywio graddau a bennir gan ganolfan, pe bai eu hangen, fel y gellir dechrau casglu tystiolaeth asesu cyn gynted â phosibl ac fel y bo'n briodol ar gyfer pob canolfan. Er mwyn i hyn fod yn hylaw ochr yn ochr â pharatoi ar gyfer cyfres arholiadau'r haf, dylai canolfannau anelu at ddefnyddio asesiadau sydd wedi'u hymgorffori i'r addysgu a'r dysgu arferol a'r cynlluniau asesu presennol.

Dylid marcio asesiadau, a rhoi adborth i ddysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer cyfres arholiadau'r haf ac i ganiatáu iddynt gael eu defnyddio fel tystiolaeth ar gyfer gradd a bennir gan ganolfan, petai'r sefyllfa anhebygol yn codi a bod angen hynny. Rhaid i ganolfannau hysbysu dysgwyr pa asesiadau fydd yn cael eu defnyddio i gasglu tystiolaeth fel rhan o drefniadau wrth gefn posibl os caiff arholiadau eu canslo. Os bydd hynny'n digwydd, bydd yr asesiadau'n cael eu defnyddio i gefnogi dyfarniad cyfannol o radd cymhwyster a bennir gan ganolfan.

Y prif bwyntiau ar gyfer canolfannau:

1. Os caiff arholiadau eu canslo, yna gofynnir i ganolfannau bennu graddau cymhwyster canolfan ar gyfer eu dysgwyr.
2. Mae graddau a bennir gan ganolfannau'n raddau cymhwyster cyffredinol a gynhyrchir trwy ddyfarniad cyfannol sy'n cael ei danategu gan nifer o ddarnau o dystiolaeth o gyrhaeddiad a ddangosir.
3. Ni ddylech bennu graddau cymhwyster oni bai bod arholiadau'n cael eu canslo a bod mwy o arweiniad yn cael ei gyhoeddi.
4. Mae angen i chi ystyried pa dystiolaeth asesu a ddefnyddir i gefnogi penderfyniadau am raddau cymhwyster os caiff arholiadau eu canslo.
5. Mae angen i chi ddweud wrth ddysgwyr pa asesiadau a ddefnyddir i bennu graddau cymwysterau fel y gallant baratoi ac, os oes angen, mae angen i chi ddiweddaru unrhyw hysbysiadau prosesu data.
6. Mae angen i chi farcio'r holl asesiadau yn gyson fel y gellir defnyddio'r dystiolaeth os oes angen.
7. Gallwch roi adborth i ddysgwyr ar bob asesiad, fel y byddech chi'n ei wneud fel arfer.

[1] Bydd trefniadau amgen ar gyfer cymwysterau'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cael eu cyfleu ar wahân.

8. Rhaid peidio â chaniatáu i ddysgwyr ail-sefyll yr un asesiad er mwyn gwella eu gradd os caiff arholiadau eu canslo.

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r canllawiau hyn yn nodi gwybodaeth lefel uchel i ganolfannau[2] ynglŷn â **threfniadau asesu wrth gefn** ar gyfer cyfres arholiadau'r haf, a fydd yn berthnasol petai'r sefyllfa anhebygol yn codi bod y gyfres arholiadau'n cael ei chanslo.

1.2 Er mwyn caniatáu i ganolfannau ganolbwyntio ar y gyfres arholiadau, dim ond os caiff arholiadau eu canslo y bydd rhagor o fanylion yn cael eu hanfon i ganolfannau.

1.3 Os caiff y gyfres arholiadau ei chanslo, byddwn yn dosbarthu canllawiau gyda manylion ychwanegol. Er enghraifft, darperir mwy o wybodaeth am brosesau sicrhau ansawdd allanol.

1.4 Ni fwriedir i'r wybodaeth lefel uchel yn y canllawiau hyn ar gyfer cefnogi dyfarnu graddau a bennir gan ganolfan ar hyn o bryd. Dim ond os caiff arholiadau eu canslo y dylid gwneud penderfyniadau graddio cyffredinol a bennir gan ganolfan a dim ond ar ôl i'r wybodaeth ategol briodol gael ei darparu er mwyn i ganolfannau allu gwneud hyn mor effeithiol â phosibl.

1.5 Byddai'r dull gradd a bennir gan ganolfan yn debyg i'r hyn a ddefnyddiwyd yn haf 2021, ond gyda rhai newidiadau er mwyn ystyried y gwersi a ddysgwyd. Felly, nid yw'r canllawiau hyn yn union yr un fath â'r canllawiau a luniwyd yn flaenorol.

2. Cydraddoldebau

2.1. Mae'n ofynnol i ganolfannau gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus[3] bob amser, gan gynnwys wrth gynhyrchu graddau a bennir gan ganolfannau. Mae hefyd dyletswyddau penodol i Gymru sy'n nodi'r camau y mae'n rhaid eu cymryd i ddangos sylw dyledus i'r ddyletswydd gyffredinol[4]. Mae hyn yn golygu bod angen i ganolfannau gyfathrebu â dysgwyr, a rhieni/gofalwyr mewn ffordd glir, dryloyw a hygyrch, ac ystyried anghenion y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

2.2. Cynhyrchodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ganllawiau ar gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar gyfer haf 2021 a oedd ar gael ar Hwb[5]. Hefyd, darparodd CBAC a Diverse Cymru hyfforddiant ar osgoi rhagfarn anymwybodol. Mae'r arweiniad a'r hyfforddiant hwn yn dal i fod yn berthnasol.

2.3. Dylai canolfannau weithredu prosesau i gyflawni eu dyletswyddau i hyrwyddo cydraddoldeb ac osgoi gwahaniaethu. Mae canllawiau ar gael yn 'Beth mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi fel darparwr addysg yng Nghymru: Ysgolion[6]'.

---

[2] Canolfan(nau) yw'r term a ddefnyddir yn y ddogfen gyfan i gyfeirio at ysgolion, colegau a chanolfannau arholi eraill.

[3] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/149

[4] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1064/contents/made

[5] Hwb yw'r llwyfan digidol ar gyfer dysgu ac addysgu yng Nghymru https://hwb.llyw.cymru

[6] https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/what-equality-law-means-you-education-provider-wales

2.4. Efallai y bydd angen rhywfaint o hyblygrwydd wrth ddefnyddio tystiolaeth o gyrhaeddiad mewn rhai amgylchiadau, er mwyn osgoi gwahaniaethu anuniongyrchol e.e. os yw dysgwr yn methu â dysgu cynnwys sy'n cael ei asesu, yna efallai y bydd angen asesiad amgen.

2.5. Bydd CBAC yn gofyn i ganolfannau weithredu prosesau sicrhau ansawdd mewnol i hyrwyddo cysondeb y dull gradd a bennir gan y ganolfan ar draws y ganolfan (o fewn pynciau ac ar draws pynciau).

3. Beth fydd graddau a bennir gan ganolfannau'n eu mesur?

3.1. Os gaiff arholiadau eu canslo, dyfernir graddau a bennir gan ganolfan ar sail cyrhaeddiad a ddangosir mewn meysydd o gynnwys y cymhwyster y mae dysgwr wedi'u cynnwys. **Nid** yw graddau a bennir gan ganolfannau yr un peth â'r graddau targed neu'r graddau a ragwelir gan na fyddant yn cael eu dyfarnu ar sail cyrhaeddiad posibl.

3.2. Disgwylir y byddai tystiolaeth asesu a gesglir yn cwmpasu'r holl amcanion asesu a chynrychioli cwmpas digonol o ofynion cynnwys manylebau.

4. Pa dystiolaeth o asesu y dylid ei chasglu?

4.1. Rhaid i ganolfannau hysbysu dysgwyr am y dystiolaeth y gellid ei defnyddio wrth bennu eu graddau cymhwyster cyffredinol cyn i'r asesiadau gael eu cynnal. Efallai y bydd gan ganolfannau gynlluniau asesu ar gyfer pob pwnc ond nid oes eu hangen.

4.2. Gall fod yn ddefnyddiol i ganolfannau gyfathrebu eu dull asesu gyda'u dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr, er mwyn darparu tryloywder a hyder yn y dull.

4.3. Ni ddylai canolfannau roi manylion penodol i gwestiynau asesu neu gyn-bapurau a ddefnyddir i ddysgwyr. Mae'n bwysig bod yr asesiadau a ddefnyddir i gefnogi dyfarniadau yn darparu cynrychiolaeth wir a dilys o lefel cyrhaeddiad y dysgwr. Bydd hyn yn cael ei wyrdroi os oes gan y dysgwr wybodaeth flaenorol o'r cwestiynau a ofynnir.

4.4. Rhaid i dystiolaeth asesu ddod o waith a gwblhawyd gan y dysgwr, ar gynnwys manyleb wedi'i haddasu, yn ystod y cwrs astudio ar gyfer y cymhwyster. Disgwylir y byddai tystiolaeth yn cynnwys gwaith o unedau a aseswyd gan arholiadau ac asesiadau di-arholiad, fel sy'n briodol i'r fanyleb gymwysterau benodol.

4.5 Rhaid i ganolfannau ystyried addasiadau rhesymol y mae gan ddysgwyr hawl i'w cael a'u defnyddio ar gyfer pob asesiad.

4.6 Ni fydd nifer y darnau na'r math o dystiolaeth sy'n ofynnol yn cael ei ragnodi, gan y bydd hyn yn amrywio yn ôl cymhwyster a sut y trefnir themâu a sgiliau allweddol mewn asesiadau.

4.7 Ni ddylai cynnal asesiadau ar gyfer trefniadau asesu wrth gefn posibl dynnu sylw oddi ar baratoi ar gyfer cyfres arholiadau'r haf. Felly dylai ychydig o ddarnau o dystiolaeth ddilys o ansawdd uchel yn ddigonol i ddangos cyrhaeddiad. Fel arweiniad, ni ddylai'r amser a dreulir ar asesiadau i lywio gradd a bennir gan ganolfan ar gyfer pob pwnc fod yn fwy na chyfanswm yr amser asesu y byddai dysgwyr yn ei gwblhau mewn cyfres arholiadau arferol ar gyfer y pwnc hwnnw.

4.8 Bydd angen i ganolfannau gadw tystiolaeth asesu ar gyfer dysgwyr a allai fod yn ofynnol fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd.

4.9 Bydd CBAC yn darparu arweiniad ar lunio dyfarniadau gradd cymhwyster cyffredinol, disgrifyddion gradd ac arweiniad ar sicrhau ansawdd.

5. Cadw cofnodion

5.1 Bydd angen cofnodion i ddogfennu penderfyniadau graddio, os bydd angen gwneud hyn, ond nid oes eu hangen oni bai bod arholiadau'n cael eu canslo. Dylai canolfannau ystyried y wybodaeth y bydd angen iddynt ei chofnodi a sicrhau ei bod yn cael ei chadw'n briodol. Er enghraifft, cofnodi bod trefniadau mynediad dysgwr wedi'u rhoi ar waith pan gynhaliwyd asesiadau.

5.2 Dylai canolfannau gadw gwybodaeth am unrhyw ystyriaethau arbennig y gallai fod gan rai dysgwyr hawl iddynt pe bai digwyddiad yn effeithio arnynt, megis profedigaeth neu salwch teuluol, ar adeg yr asesiad.

5.3 Bydd angen i ganolfannau sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau fel rheolydd data yn unol â deddfwriaeth diogelu data a dylent adolygu asesiadau effaith diogelu data a hysbysiadau preifatrwydd cyn i unrhyw brosesu data ddechrau.

6. Prosesau sicrhau ansawdd

6.1. Os caiff yr arholiadau eu canslo bydd yn ofynnol i ganolfannau weithredu prosesau sicrhau ansawdd mewnol i hyrwyddo cysondeb y dull gradd a bennir gan ganolfannau ar draws y ganolfan (o fewn pynciau ac ar draws pynciau). Nid oes unrhyw ofynion sicrhau ansawdd mewnol ychwanegol i'r rhai sy'n ofynnol yn haf 2021, er y gall canolfannau ddewis adolygu a diweddaru eu prosesau mewnol, yn ôl yr angen. Ni fydd yn ofynnol i ganolfannau gyflwyno Polisi Asesu Canolfan.

6.2. Os caiff yr arholiadau eu canslo, gall CBAC weithredu rhaglen o brosesau sicrhau ansawdd canolfannau allanol (mae hyn yn dibynnu ar amseriad unrhyw benderfyniad). Bydd hyn yn cynnwys samplu gwaith dysgwyr a'r penderfyniadau graddio cyfatebol a wneir gan ganolfan. Felly, rhaid i ganolfannau gadw'r holl dystiolaeth asesu berthnasol a ddefnyddiwyd.

6.3. Bydd CBAC yn rhoi arweiniad ar brosesau sicrhau ansawdd os bydd y trefniadau wrth gefn yn cael ei sbarduno yn unig.

7. Ymgeiswyr preifat

7.1 Mae opsiynau i sicrhau mynediad at raddau cymwysterau i ddysgwyr nad ydynt ar gofrestr canolfan ac a fyddai fel arfer yn ymuno â'r cymwysterau hyn fel ymgeiswyr preifat yn cael eu trafod. Byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl os caiff yr arholiadau eu canslo.

7.2 Pan fo ymgeiswyr preifat wedi eu cofrestru'n gynnar gyda chanolfan, yna gallent gwblhau asesiadau trwy gydol y flwyddyn, fel ar gyfer y dysgwyr ar y gofrestr. Byddai hyn yn galluogi cynhyrchu gradd a bennir gan ganolfan yn yr un modd.

7.3 Os caiff yr arholiadau eu canslo byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a grwpiau rhanddeiliaid perthnasol eraill i sicrhau bod cyfathrebu mor eang â phosibl fel bod dysgwyr sy'n ymgeisio am gymwysterau fel ymgeiswyr preifat yn gwybod beth fydd y broses.

8. Gwybodaeth a chefnogaeth i ddysgwyr

8.1. Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i gyfathrebu mesurau ar gyfer cefnogi lles a dilyniant dysgwyr.

8.2 Mae angen hysbysu dysgwyr am asesiadau y gellid eu defnyddio fel tystiolaeth yn nyfarniad cyffredinol eu gradd a bennir gan ganolfan. Mae hyn er mwyn dilyn rheolau diogelu data. Mae'r tryloywder hwn yn cyfrannu rhywfaint at liniaru'r risg y bydd lefelau cymhelliant is yn rhoi dysgwr dan anfantais.

8.3 Dylai canolfannau rannu negeseuon calonogol, cyson a chlir i ddysgwyr am y trefniadau hyn, fel:

- oni bai bod arholiadau'n cael eu canslo, rydych yn paratoi ar gyfer asesiad trwy arholiadau, yn unol â gofynion asesu'r cymhwyster,
- nid yw'r arweiniad hwn yn golygu y gellid defnyddio'r holl waith/asesiadau a gwblhawyd gan ddysgwyr fel tystiolaeth ac
- mae'r trefniadau wrth gefn hyn wedi'u hamlinellu, rhag ofn y bydd digwyddiad fel sefyllfa iechyd cyhoeddus sy'n arwain at ganslo arholiadau. Mae'n gynllun wrth gefn.

8.4. Os bydd arholiadau'n cael eu canslo, gellid defnyddio asesiadau a gynhelir dros y flwyddyn fel tystiolaeth o gyrhaeddiad, yn hytrach na dibynnu ar asesiadau a gynhelir yn ystod wythnosau olaf y cwrs. Mae hyn yn helpu i ledaenu'r asesiadau ar gyfer dysgwyr ac ar gyfer staff y ganolfan a fydd yn marcio asesiadau. Mae hefyd yn lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â gadael y mwyafrif o asesu tan ddiwedd y cwrs a'r sefyllfa iechyd cyhoeddus ar yr adeg honno gan wneud hyn yn anodd. Efallai y bydd rhai dysgwyr yn teimlo'n bryderus am yr asesiadau parhaus hyn ac yn teimlo mwy o bwysau o ganlyniad. Dylai canolfannau ddarparu cefnogaeth fugeiliol a lles addas yn ystod y cyfnod anodd hwn. Er enghraifft, gallai canolfannau gynllunio ar gyfer diweddariadau rheolaidd i ddysgwyr mewn carfannau sy'n sefyll arholiadau yn yr haf.

8.5 Er mwyn paratoi ar gyfer arholiadau, bydd canolfannau'n rhoi adborth i ddysgwyr pan fyddant yn cwblhau asesiadau, fel rhan o'r rhaglenni addysgu a dysgu arferol. Gellir rhannu marciau ac arwyddion o berfformiad yn y tasgau hyn gyda'r dysgwyr, i'w hysgogi a'u harwain. Mae'n bwysig nad yw'r adborth hwn yn gysylltiedig â graddau a bennir gan ganolfan ar hyn o bryd. Os caiff yr arholiadau eu canslo a bod angen cynhyrchu graddau a bennir gan ganolfan, yna bydd CBAC yn darparu arweiniad pellach ar ddefnyddio tystiolaeth i gefnogi dyfarniad cyffredinol, cyffredinol o gyrhaeddiad a ategir gan yr asesiadau hyn.

8.6 Bydd gwybodaeth i ddysgwyr, rhieni a gofalwyr ar ein gwefan am y cynlluniau wrth gefn. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, CBAC ac ysgolion a cholegau i ddarparu gwybodaeth berthnasol.

8.7 Mae gwefan y Comisiynydd Plant Cymru yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau cymorth i bobl ifanc, gan gynnwys iechyd meddwl a chymorth emosiynol.

9. Gwybodaeth ac arweiniad i ganolfannau

9.1 Mae CBAC wedi darparu'r canllawiau canlyno yn y gorffennol:

- Canllawiau Creu Asesiadau

9.2 Gwybodaeth a chanllawiau eraill o haf 2021 sy'n berthnasol:

- Canllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
- Canllawiau CBAC ar osgoi rhagfarn anymwybodol
- Diogelu data a phrosesu data

9.3 Os caiff yr arholiadau eu canslo, bydd rhagor o wybodaeth ac arweiniad yn cael eu darparu. Bydd hyn yn cynnwys arweiniad ar raddio cymhwyster cyffredinol a'r broses apelio.

9.4 Yn 2021, awgrymodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ddolenni i ganllawiau a allai fod yn arbennig o berthnasol. Roedd y rhain fel a ganlyn:

- Y prif arweiniad ar Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU: https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-thehttps://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/general-data-protection-regulation-gdpr/
- O fewn y prif arweiniad hwn, mae'r adrannau canlynol yn debygol o fod yn arbennig o berthnasol:
- Canllawiau ar Asesiadau Effaith Diogelu Data (DPIAs), gan gynnwys templed Bydd CBAC yn darparu canllawiau pellach ar y broses raddio, y broses sicrhau ansawdd a'r broses apelio.DPIA a rhestrau gwirio i helpu rheolwyr data i benderfynu a oes angen DPIA
- Canllawiau ar yr hawl i gael eich hysbysu, a fydd yn helpu'r holl reolwyr data sy'n rhan o'r broses asesu i ddatblygu a darparu gwybodaeth breifatrwydd o ansawdd da i ymgeiswyr
- Canllawiau ar brosesu data personol categori arbennig, sy'n cynnwys templed dogfen bolisi ar gyfer y prosesu hwnnw.